Prynu Trwydded Deledu.

TV LICENSING

TRWYDDEDU TELEDU

www.tvlicensing.co.uk

Pam mae angen Trwydded Deledu?

Mae angen i chi gael Trwydded Deledu ni waeth pa ddyfais rydych yn ei defnyddio i wylio neu recordio rhaglenni teledu wrth iddyn nhw gael eu dangos ar y teledu. Mae hyn yn cynnwys setiau teledu, cyfrifiaduron, ffonau symudol, consolau gemau, bocsys digidol a pheiriannau recordio DVD/VHS. Felly, os ydych yn gwylio'r teledu heb Drwydded Deledu ddilys, fe allech gael eich erlyn ac wynebu dirwy o hyd at £1,000 a bydd yn dal angen i chi brynu Trwydded Deledu.

Faint mae Trwydded Deledu yn ei gostio?

Mae Trwydded Deledu lliw yn costio £145.50 ac mae Trwydded Deledu du a gwyn yn costio £49.00.

Os ydych chi neu rywun sy'n byw gyda chi yn 74 oed neu drosodd, mae'n bosib y gallech hawlio **Trwydded Deledu tymor byr ar gyfer pobl 74 oed, neu Drwydded Deledu dros 75 am ddim**. Ond, mae'n rhaid i chi gysylltu â ni a gwneud cais, neu fyddwch chi ddim wedi'ch trwyddedu.

I wneud cais am Drwydded Deledu tymor byr ar gyfer pobl 74 oed, neu Drwydded Deledu dros 75 am ddim, ffoniwch **0300 790 6042**. Bydd angen i chi roi eich dyddiad geni a'ch rhif Yswiriant Gwladol. Mae hwn i'w weld ar eich adroddiad banc os yw eich pensiwn yn cael ei dalu'n syth i'ch cyfrif banc. Os nad oes gennych rif Yswiriant Gwladol, ffoniwch i drefnu ffordd arall o brofi eich dyddiad geni.

Os ydych yn ddall neu â nam difrifol ar eich golwg, fe allwch chi hawlio consesiwn o 50% ar ffi eich Trwydded Deledu. Dylech ddarparu llungopi un ai o'ch dogfen cofrestru'n ddall neu dystysgrif gan eich offthalmolegydd sy'n dangos eich bod yn ddall neu â nam difrifol ar eich golwg, ynghyd â rhif eich Trwydded Deledu a rhif ffôn i gysylltu â chi. Postiwch y ddogfen hon, eich manylion a'ch taliad trwy siec at: Trwyddedu Teledu, Grŵp Consesiwn i Bobl Ddall, Bryste BS98 1TL.

Sut mae prynu Trwydded Deledu?

Gallwch brynu Trwydded Deledu:

- **Trwy Ddebyd Uniongyrchol** Mae angen i chi gael cyfrif banc neu gymdeithas adeiladu sy'n derbyn Debyd Uniongyrchol. Gallwch dalu bob mis, bob chwarter neu bob blwyddyn. Pan fyddwch wedi dewis pa un o'r cynlluniau canlynol sy'n gweddu orau i chi, ffoniwch ni ar **0300 790 6042** gyda'ch manylion banc wrth law neu ewch i **www.tvlicensing.co.uk/dd**.

  Cofiwch mai dim ond ar gyfer trwydded lliw y gallwch dalu bob mis a phob chwarter.

  Bob blwyddyn Bydd eich banc neu gymdeithas adeiladu yn trosglwyddo ffi lawn y drwydded yn awtomatig unwaith y flwyddyn.

  Bob chwarter Byddwch yn talu mewn pedwar rhandaliad cyfartal, bob tri mis. Gan eich bod yn ôl-dalu am y rhan fwyaf o'ch trwydded, mae yna bremiwm chwarterol o £1.25.

  Bob mis Byddwch yn talu am eich trwydded gyntaf o fewn chwe mis. O hynny ymlaen, byddwch yn rhannu'r gost mewn deuddeg taliad misol – chwech cyn i'ch trwydded fod yn ddyledus a chwech ar ôl hynny.

- **Talu ar lein** Fe gewch chi dalu ar lein yn **www.tvlicensing.co.uk**. Gallwch ddewis talu trwy Ddebyd Uniongyrchol, gyda cherdyn credyd neu gerdyn debyd.
- **Gyda cherdyn debyd neu gerdyn credyd** I ddefnyddio cerdyn fel Maestro, Delta, Solo, Visa, Visa Electron neu MasterCard ffoniwch **0300 790 6042** a rhowch eich manylion iddynt.
- **Yn unrhyw safle PayPoint** Gallwch dalu'n llawn am Drwydded Deledu lliw gydag arian parod neu drwy gerdyn debyd.
- **Drwy'r post** Ysgrifennwch siec am y ffi lawn yn daladwy i 'Trwyddedu Teledu' gyda'ch enw, cyfeiriad a rhif y drwydded ar y cefn a'i hanfon at: **Trwyddedu Teledu, Bryste BS98 1TL**.

Fyddai'n well gennych dalu bob wythnos?

Os hoffech dalu bob wythnos am eich Trwydded Deledu, fe allwch chi dalu fesul tipyn, o gyn lleied â £5.50 gyda cherdyn talu Trwyddedu Teledu. Ffoniwch **0300 555 3456**, gan roi'r cyf: GAL.

TV LICENSING

TRWYDDEDU TELEDU

www.tvlicensing.co.uk

Angen Help?

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am Drwyddedau Teledu, ffoniwch **0300 790 6042**, gan roi'r cyfeirnod GAL.

Os ydych yn cael problemau ariannol neu eisiau gair gyda rhywun arall am y daflen yma, gallwch ofyn am help gan eich Canolfan Gynghori leol, Uned Cyngor Ariannol neu Swyddog Tai, neu ffoniwch y Llinell Ddyledion Genedlaethol ar **0808 808 4000**.

Os oes gennych broblemau gyda'ch golwg, mae'r wybodaeth yma ar gael trwy e-bost neu mewn Braille, print bras neu sain trwy ffonio 0300 790 6076. Hefyd, mae gwasanaeth Minicom ar gael i bobl sy'n fyddar neu'n drwm eu clyw ar 0300 790 6053.

Os ydych chi angen gwybodaeth mewn unrhyw iaith arall, cysylltwch â ni ar **0300 790 6044**.

Eisiau gwneud sylwadau ar ein gwasanaeth? Boed dda neu wael, byddem yn falch o glywed eich barn. Ysgrifennwch at Gwasanaethau i Gwsmeriaid, Blwch Post 336, Trwyddedu Teledu, Bryste BS98 1TL.

Mae'r daflen yma yn ddilys tan fis Mawrth 2011.

TV LICENSING

TRWYDDEDU TELEDU

www.tvlicensing.co.uk

Sut i Gysylltu â Ni

Ffôn: 0300 790 6042

Gwefan: www.tvlicensing.co.uk

Llythyr: Trwyddedu Teledu, Bryste BS98 1TL

TV LICENSING

TRWYDDEDU TELEDU

www.tvlicensing.co.uk